EUSCS03

Gwaith mewn mannau cyfyng risg uchel

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gweithio mewn mannau cyfyng risg uchel fel aelod o dîm gwaith. Mae man cyfyng yn unrhyw le, gan gynnwys unrhyw siambr, tanc, cerwyn, seilo, pwll, ffos, pibell, carthffos, ffliw, ffynnon neu fan tebyg lle ceir risg benodol y gellir ei rhagweld yn rhesymol oherwydd ei natur gaeedig. Gallai'r risgiau arwain at anaf difrifol neu farwolaeth o ganlyniad i dân, ffrwydrad, nwy, mygdarthau, anwedd, diffyg ocsigen, lefelau cynyddol o hylif, mygu neu gaethiwo gan solidau sy'n llifo'n rhydd.

Gall mannau cyfyng risg uchel:

- fod â mynedfeydd ansafonol a allai gynnwys gweithdrefnau cymhleth ar gyfer mynd i mewn
- bod mewn lleoliad anghysbell gyda risgiau penodol neu weithgaredd gwaith a ddiffinnir fel risg uchel
- cynnwys peryglon a nodwyd nad oes modd eu rheoli'n llawn wrth fynd i fewn neu wrth weithio.

Mae gweithio mewn unrhyw fan cyfyng risg uchel yn golygu gweithio yn unol â system waith y cytunwyd arni sy'n seiliedig ar asesiad risg sy'n seiliedig ar safle neu dasg benodol. Ar ben hynny, bydd angen y canlynol mewn mannau cyfyng risg uchel:

- defnyddio cyfarpar diogelwch fel cyfarpar anadlu
- un neu ragor o bobl y tu allan i'r man cyfyng sydd â chyfrifoldebau penodedig dros reoli'r mynediad a mynd i'r afael ag argyfyngau.
- tîm argyfwng a ddylai fod ar gael pe byddai argyfwng yn digwydd.

Mae'r safon hon yn cynnwys paratoi i fynd i mewn i fannau cyfyng risg isel a gweithio ynddynt yn ddiogel, mynd i mewn i fannau cyfyng a'u gadael yn ddiogel, defnyddio cyfarpar ac offer yn unol â manylion y gwneuthurwyr, defnyddio cyfarpar diogelwch a dilyn gweithdrefnau a gweithio'n ddiogel.

Mae'r safon hon ar gyfer unrhyw un o unrhyw sector y mae angen iddynt weithio mewn man cyfyng risg uchel.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cadw at asesiadau risg cyfredol, ar gyfer safleoedd penodol cyn dechrau gweithio
2. gosod systemau signalau a chyfathrebu a'u profi cyn mynd i mewn i fannau cyfyng
3. defnyddio dulliau cyfathrebu sy'n addas ar gyfer tasgau a mannau cyfyng
4. gwneud yn siŵr bod trefniadau argyfwng ac achub addas ar waith cyn mynd i mewn
5. gwneud yn siŵr bod yr holl gyfarpar ac offer yn addas ac yn gweithio'n dda cyn mynd i mewn i fannau cyfyng
6. dewis cyfarpar diogelu personol priodol (PPE) sy'n ffitio ac mewn cyflwr da
7. dewis cyfarpar diogelwch, dianc ac argyfwng sy'n briodol ar gyfer yr amodau
8. cadarnhau bod cyfarpar diogelwch yn gydnaws â chyfarpar diogelu personol (PPE) y mae pobl yn ei gael drostynt eu hunain neu'n sydd wedi'i ddyrannu ar eu cyfer.
9. cynnal gwiriadau o'r cyfarpar diogelwch, dianc ac argyfwng cyn dechrau gweithio a'u defnyddio a chael cyfarpar newydd pan mae'n ddiffygiol
10. gwisgo'r cyfarpar anadlu gofynnol a chyfarpar diogelu personol cyn mynd i mewn i fannau cyfyng
11. ffitio, addasu, cario, defnyddio a symud cyfarpar diogelwch, dianc ac argyfwng dynodedig yn unol â gweithdrefnau a chyfarwyddiadau gwneuthurwyr
12. datrys unrhyw broblemau gyda chyfarpar diogelwch, dianc ac argyfwng a rhoi gwybod i bobl briodol am ddiffyg cydymffurfio
13. monitro cyfarpar diogelwch, dianc ac argyfwng wrth eu gweithredu a'u defnyddio
14. cael caniatâd i fynd i mewn gan y bobl ddynodedig sy'n goruchwylio'r gwaith
15. gosod, profi a chofnodi canlyniadau cyfarpar monitro priodol cyn mynd i mewn i fannau cyfyng
16. gwneud yn siŵr bod yr amodau'n ddiogel cyn mynd i mewn i fannau cyfyng
17. cynnal parthau diogelwch a rheoli mynediad a symudiad pobl a

cherbydau o amgylch mynediadau mewn sefyllfaoedd pan mae angen cadw pobl draw

18. cael gafael ar gyfarpar mynediad sy'n briodol ar gyfer mynd i mewn a gadael, ei osod a'i wirio

19. defnyddio cyfarpar mynediad i fynd i mewn i fannau cyfyng a'u gadael yn unol â gweithdrefnau ar gyfer gweithio mewn mannau cyfyng risg uchel

20. defnyddio dulliau penodedig er mwyn mynd â chyfarpar ac offer i mewn i fannau cyfyng

21. datrys unrhyw broblemau gyda chyfarpar ac offer cyn ac wrth eu defnyddio

22. datrys unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â mynd i mewn i fannau cyfyng, eu gadael neu weithio ynddynt gyda phobl berthnasol

23. dilyn gweithdrefnau cyflogwyr ar gyfer gweithio'n ddiogel a chyfarwyddiadau gwneuthurwyr cyfarpar

24. monitro amodau a lefelau risg mewn mannau cyfyng yn barhaus

25. cymryd camau priodol i reoli pob risg a chywiro unrhyw weithgaredd, cyfarpar ac amodau amgylcheddol anniogel ar unwaith

26. monitro gwybodaeth sy'n newid o gyfarpar monitro ac ymateb iddi'n barhaus

27. ymateb ar unwaith i amodau sy'n newid

28. defnyddio protocolau sydd wedi ennill eu plwyf ar gyfer signalau neu gyfathrebu er mwyn dechrau cynlluniau argyfwng

29. dechrau cynlluniau argyfwng ar unwaith mewn sefyllfaoedd peryglus

30. dilyn gweithdrefnau argyfwng a'u cynnal drwy gydol digwyddiadau

31. defnyddio cyfarpar dianc priodol ar gyfer yr amgylchedd fel y nodir mewn gweithdrefnau

32. cofnodi digwyddiadau argyfwng a'u hamgylchiadau ac adrodd amdanynt yn unol â gweithdrefnau

33. cwblhau'r holl ddogfennaeth a'r adroddiadau ar adegau priodol

34. anfon dogfennaeth ac adroddiadau ymlaen at y bobl briodol ar unwaith

35. sicrhau bod cyfarpar ac offer yn cael eu hadfer o fannau cyfyng pan mae'r gwaith wedi'i gwblhau

36. cau mannau gwaith a'u gwneud yn ddiogel pan mae'r gwaith wedi'i gwblhau

37. gwirio cyfarpar ac offer ar ôl eu defnyddio a'u storio yn unol â

chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr

38. gwirio cyfarpar diogelwch, dianc ac argyfwng ar ôl ei ddefnyddio a gadael yn ddiogel, a chadarnhau ei fod yn cydymffurfio â manylion cyn eu storio yn y storfa ddynodedig yn barod ar gyfer y gwaith nesaf.

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. prif egwyddorion a nodweddion diffiniol mannau cyfyng cyfredol, iechyd a diogelwch a deddfwriaeth a rheoliadau amgylcheddol
2. y codau ymarfer a'r canllawiau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer gweithio mewn mannau cyfyng
3. dyletswyddau a chyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth
4. diffiniadau o sefyllfaoedd peryglus a gwahanol fathau o risg a nodir a chategorïau ohonynt
5. mathau o fannau a allai fynd yn gyfyng gan fod risg a nodwyd yno
6. peryglon, sylweddau, a sefyllfaoedd sy'n gysylltiedig â mannau cyfyng risg uchel gan gynnwys boddi, amlyncu, gwres, mygu, tân a ffrwydrad
7. sut i gynnal asesiad risg deinamig er mwyn adolygu risg, cofnodi canfyddiadau a lleihau'r risg o anaf i chi eich hun, cydweithwyr a'r cyhoedd
8. ymwybyddiaeth o sut gall sefyllfaoedd argyfwng godi mewn mannau cyfyng
9. defnydd a chyfyngiadau cyfarpar diogelwch, dianc ac argyfwng gan gynnwys cyfarpar anadlu, cyfarpar diogelu rhag cwympo a chyfarpar achub cynorthwyol
10. sut i gynnal gwiriadau cyn defnyddio cyfarpar diogelwch, dianc ac argyfwng, a nodi diffygion ynddynt
11. sut i ffitio, rhoi ymlaen, gwisgo, defnyddio a thynnu cyfarpar diogelu personol a chyfarpar dianc ac anadlu a'r goblygiadau o ran hyd ac amddiffyniad os na chaiff hyn ei wneud yn gywir
12. cyfarwyddiadau gwneuthurwyr ynghylch defnyddio cyfarpar diogelwch, dianc ac argyfwng gan gynnwys cyfarpar diogelu rhag cwympo, cyfarpar achub cynorthwyol, cyfarpar anadlu hunangynhwysol a llinell aer, gan gynnwys y rhai ar gyfer pwysau'r corff a blew'r wyneb
13. deddfwriaeth a chodau ymarfer a chanllawiau cymeradwy ar gyfer defnyddio cyfarpar diogelwch gan gynnwys cyfarpar anadlu hunangynhwysol
14. eich rôl wrth weithio'n rhan o dîm a sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel wrth weithio gydag eraill
15. y rolau a'r cyfrifoldebau wrth fynd i'r afael ag argyfyngau
16. gweithdrefnau ar gyfer mynd i'r afael ag argyfyngau, digwyddiadau a damweiniau fu ond y dim iddynt ddigwydd

17. eich cylch gorchwyl mewn cysylltiad â chymorth cyntaf mewn sefyllfaoedd argyfwng yn seiliedig ar asesiad risg
18. cynlluniau dosbarthu mannau cyfyng
19. sut i nodi mannau cyfyng risg uchel
20. sut i osod cyfarpar mynediad a'i archwilio
21. y gweithdrefnau ar gyfer mynd i mewn i fannau cyfyng risg uchel
22. sut i asesu ac adolygu risgiau a pheryglon, hierarchaeth y mesurau rheoli a sut gellir eu defnyddio i leihau risgiau hyd at lefel dderbyniol er mwyn i waith gael ei wneud
23. pam mae'n bwysig bod yn effro i risgiau a pheryglon posibl ac amodau sy'n newid
24. sut mae systemau awyru'n gweithio a'u manteision a'u hanfanteision mewn mannau cyfyng
25. y gweithdrefnau a'r dulliau gweithio sy'n addas i ddosbarth y man cyfyng ac amodau lleol
26. y gwahanol fathau o gyfarpar monitro a'u cyfyngiadau
27. ffyrdd o fonitro amodau a gweithgaredd gwaith
28. gweithdrefnau diheintio
29. pam mae'n bwysig datrys problemau ynghylch gwaith mewn mannau cyfyng ar unwaith
30. sut i ddatrys problemau pan fydd pobl neu sefydliadau eraill yn cymryd rhan
31. systemau a phrotocolau signalau a chyfathrebu ar gyfer cadw mewn cysylltiad â phobl eraill wrth weithio mewn mannau cyfyng risg uchel ac mewn sefyllfaoedd argyfwng
32. sut i ddilyn cyfarwyddiadau a gweithdrefnau gwneuthurwyr ar gyfer paratoi, cyn ac ar ôl cynnal archwiliad, a defnyddio offer a chyfarpar
33. systemau adrodd ar gyfer gweithgareddau gwaith arferol ac anarferol a sefyllfaoedd argyfwng

Gwaith mewn mannau cyfyng risg uchel

Datblygwyd gan	Energy & Utility Skills
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2020
Indicative Review Date	Mawrth 2025
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Energy & Utility Skills
RCU gwreiddiol	EUSCS03
Galwedigaethau perthnasol	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu; Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig
Cyfres/Set	Mannau Cyfyng
Geiriau Allweddol	Man cyfyng; risg uchel; risg benodol; mynediad; allanfa; diogelwch; cyfarpar mynediad; monitro amodau; argyfyngau